

Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid:

Cynllun y Gweithlu a'r Fframwaith

Hyfforddi

Bydd y newid o'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddidi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn golygu newid yn y cynllunio ar gyfer staff mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

Nod y cynllun cenedlaethol a'r fframwaith hyfforddi hwn yw helpu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gael y newidiadau yn iawn. Bydd hefyd yn helpu sefydliadau a lleoedd eraill (cartrefi gofal, ysbytai annibynnol, sefydliadau eirioli a gwasanaethau addysg) i gyflawni eu rolau.

Bydd Cynllun y Gweithlu yn cynnwys:

- Sut i gynllunio nifer y bobl ym mhob rôl y bydd eu hangen i ddefnyddio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
- Sut i weithio allan faint o bobl y gallai fod angen i'w hamddifadedd o ryddid gael ei awdurdodi ym mhob awdurdod lleol neu ardal bwrdd iechyd
- Sut i weithio allan faint o staff â'r sgiliau cywir sydd yna i ddefnyddio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
- Rhestr o'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer pob rôl o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

- Sut i wneud cynllun dysgu i ddiwallu'r angen am recriwtio a hyfforddi staff mewn tri cham:
 - Yr amser o nawr tan i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ddechrau
 - Y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ddechrau
 - Ar ôl hyn, recriwtio a hyfforddi i gadw'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid i redeg yn esmwyth.

Cynllunio ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

Bydd angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol edrych ar:

- Nifer bresennol y bobl a gefnogir gan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Nifer y bobl a gefnogir trwy'r Llys Gwarchod:
 - I bobl sy'n byw yn y gymuned.
 - I'r rhai 16-17 oed
 - I bobl eraill y byddai angen cytuno ar amddifadedd o'u rhyddid yn y dyfodol.

Cynllunio ar gyfer pwy fydd yn cynnal asesiadau a phenderfyniadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

Mae angen i'r holl staff iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg gydnabod lle mae rhyddid yn cael ei gyfyngu. Rhaid iddyn nhw wybod bod angen awdurdodiad cyn y gellir cyfyngu ar ryddid rhywun.

Mae angen i'r holl staff sy'n cynnal asesiadau anghenion iechyd a gofal neu gynllunio gofal a chymorth ystyried Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Mae hyn yn golygu, os oes angen asesiad galluedd meddyliol ar rywun neu os gallai penderfyniad gyfyngu ar ei ryddid, bydd y wybodaeth gywir eisoes ar gael.

Bydd angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol weithio allan faint o staff fydd eu hangen i gyflawni gwahanol rannau o'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'i gymharu â'r nifer bresennol o staff sy'n cyflawni Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gellid llenwi'r bwlch trwy hyfforddi, recriwtio, neu rannu staff ar draws ardaloedd lleol.

Mae gan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid wahanol rolau i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Bydd y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar staff yn newid.

Bydd angen rhywfaint o hyfforddiant ar bob aelod o staff, ond ni fydd angen yr un hyfforddiant ar bob un ohonyn nhw.

Grŵp A

Mae'r rhain yn staff a allai ddod i gysylltiad ag unigolyn sy'n derbyn gofal na fydd efallai'n gallu cydsynio i newidiadau sy'n cyfyngu ar ei ryddid. Mae angen iddyn nhw wybod am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

Grŵp B

Dyma reolwyr y staff sydd yng Ngrŵp A. Mae angen iddyn nhw wybod pryd mae angen awdurdodiad Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a sut mae'r broses yn gweithio.

Grŵp C

Staff yw'r rhain sy'n cynnal asesiadau gofal a chymorth ac yn ysgrifennu cynlluniau gofal a chymorth. Bydd angen iddyn nhw wybod sut i wneud asesiadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, gan gynnwys pwy i ymgynghori â nhw a sut i ymgynghori â nhw. Bydd angen iddyn nhw hefyd wybod pryd i gynnwys y Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy.

Grŵp D

Dyma reolwyr y staff sydd yng Ngrŵp C. Byddan nhw'n adolygu'r asesiadau ac yna'n awdurdodi'r hyn a benderfynwyd. Bydd angen iddyn nhw wybod sut i asesu'r dystiolaeth Diogeliadau

Amddiffyn Rhyddid a gyflwynir a sut i fonitro ac adrodd ar y broses Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

Grŵp E

Y rhain yw'r Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Bydd angen hyfforddiant ar staff presennol ar sut mae eu rôl newydd yn wahanol i'w hen rôl. Bydd angen cwrs hyfforddi newydd ar staff newydd.

Grŵp F

Y rhain yw'r Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy. Bydd angen hyfforddiant ar Aseswyr Budd Gorau cyfredol ar rôl newydd y Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy. Bydd angen hyfforddiant ar staff newydd nad ydyn nhw'n Aseswyr Budd Gorau ar hyn o bryd.

Anghenion dysgu sefydliadau

Os yw sefydliad yn darparu gwasanaethau i bobl 16+ oed na fydd efallai'n gallu cydsynio i gael eu rhyddid wedi'i gyfyngu, bydd angen i'w staff ddysgu am Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

Bydd gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ystod o rolau lle bydd angen dysgu staff.

Mae dwy ran i'r cynllun hyfforddi. Bydd rhan un y cynllun hyfforddi yn cefnogi'r newid i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, ac yn helpu staff i fod yn barod i weithio yn eu rolau newydd. Bydd rhan dau'r cynllun hyfforddi yn helpu staff i barhau i weithio yn y rolau hyn yn y dyfodol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae Llywodraeth Cymru yn siarad â phobl am gynllunio a hyfforddi gweithlu. Pan fydd Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar bobl, byddan nhw'n yn ysgrifennu fersiwn newydd o'r cynllun hwn.